



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODIO CYFARFOD Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, EBRILL YR 20^{FED} 2022**

Cyfarfod yn ystod y cyfnod cyn etholiad er mwyn cadarnhau a chymeradwyo taliadau, adroddiadau cyllid a materion cynllunio'n unig.

Caiff Cofnodion Mawrth y 30ain 2022 a'r Rhestr Weithredu eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Cyng Leena Farhat; Cyng Laura Fielding; Cyng Carol Gell; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Nia Jones; Cyng Gareth Jones; Cyng Claire Hughes; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Delohne Merrell; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts

Roedd Preben Vangberg yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod i baratoi ar gyfer ymuno gyda'r Cyngor Tref.

Caiff y datganiadau ar gyfer y Cyngor Tref newydd eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mai.

1. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod.
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau: Dirprwy Faer Gyng Christopher Jones; Penderfynwyd derbyn a nodi
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – Yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol Cyng A Hinchliff Eitem 6 Ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond fe gadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad ydyw'n gwneud sylw am ei fwrriad o ran pleidleisio. Penderfynwyd derbyn a nodi
4. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol:
 1. Adroddiad Ariannol Diwedd y Flwyddyn
 2. Drafft o Adroddiad Presept Diwedd y Flwyddyn (yn amodol ar waith Archwilio)
 3. 2021/2022 Adroddiad Arian Mân Diwedd y Flwyddyn

Bu i'r Clerc gyflwyno'r adroddiadau a gofynnodd am unrhyw ymholiadau neu sylwadau. Soniwyd fod Clerc y Dref / y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi cwblhau'r archwiliad mewnol gyda JDH Hughes fel oedd yn briodol yn ystod cyfnod y pandemig. Mae wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Cyngor Tref cyflawn. Ni chafodd archwiliadau allanol y ddwy flynedd ddiwethaf eu cadarnhau'n ffurfiol, er eu bod wedi'u cwblhau a'u hanfon. Y rheswm dros hyn ydy bu trafferthion gweinyddol gyda'r archwilwyr allanol. Mae'r cytundeb cenedlaethol wedi'i ddychwelyd i Archwilio Cymru ac maen nhw wrthi'n cwblhau'r llwyth gwaith wrth gefn sy'n cynnwys nifer o adroddiadau gan Gyngorau Tref a Chymuned. Fe gynigiodd y Faeres Penny Andow y buasai'n e-bostio Archwilio Cymru i gysylltu gyda'r archwilwyr gan ddatgan pryderon y Cyngor Tref ac amlygu'r pwysau sydd ar Glerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Eglurodd y Clerc fod y Cyngor Tref yn gyfrifol am dri chyfrif banc:

1. Cyfrif Cyfredol Cymunedol – lle caiff yr holl daliadau eu cyflwyno
2. Cyfrif Presept – lle caiff yr holl incwm ei dalu mewn iddo
3. Cyfrif Prosiect – cyfrif cynilo

Bu i'r Cyngor Tref gytuno'n flaenorol i gyfanswm wrth gefn o 50% sy'n £50,000 gyda phresept o £100,000. Caiff unrhyw gyllid dros ben ei symud i'r Cyfrif Prosiect ar gyfer prosiectau cymunedol. Bu i Glerc y Dref estyn diolch i'r Maeres Andow am gynnig cysylltu gydag Archwilio Cymru. Bu iddi hefyd ddiolch i'w rhagflaenydd Einir Shepherd am drosglwyddo system gyfrifo mor gadarn gan fod hyn wedi bod yn gymorth sylweddol yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Ebrill 2021
 1. Sgipiau CBSC (ôl-daliad) £552.00 (wedi'i ddiweddarau i £1380.00)
 2. Ffi flynyddol ZOOM REIM Clerc y Dref (ôl-daliad) £143.88

3. Un Llais Cymru y Cyng Alun Jones 5672 a'r Cyng Christine Roberts 5772 (ôl-daliad) £120.00
Clerc i wirio anfoneb 5772. Christine yn dweud nad oedd hi wedi bod ar y cwrs.
 4. Gweddill Delwedd o anfoneb £141.70
 5. Taliadau cyfieithu Menter Iaith £302.11
 6. Taliad Llungopiwr Siemens £362.40
- Soniodd y Clerc, oherwydd ei fod hi'n ddiwedd y flwyddyn, roedd rhai taliadau hwyr roedd yn rhaid eu talu:
1. S137 2021/22 grant i Neuadd Gymunedol Llanfairfechan £3000 i dalu am sesiynau cymunedol penodol sydd wedi'u cynnal gan y Cyngor Tref
 2. S135 2021/ 22 grant i Glwb Pêl Droed Llanfairfechan £1224.90 i dalu am waith brys ar y blwch trydan sydd wedi'i ddifrodi ac adnoddau hyfforddi
 3. Pwyllgor Argyfyngau Trychinebus yr Wcráin – Fe gasglwyd £215.00 ar gyfer Pwyllgor Argyfyngau Trychinebus yr Wcráin yn y marchnadoedd. Mae'r swm wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif banc ac mae'r Pwyllgor Argyfyngau Trychinebus wedi derbyn y taliad £215.00
 4. Trefnu'r sgip cymunedol ar frys - £234.00 – roedd hyn yn archeb hwyr a bydd angen ei dalu erbyn Ebrill y 27^{ain}

Cafodd y pedair eitem hyn eu cytuno'n anffurfiol ac fe gân nhw eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf ar Fai'r 11^{eg}.
Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Trafod materion cynllunio
 0/49558 Fern bank Ffordd Penmaenmawr Llanfairfechan LL33 0PL - Dim sylwadau. Mae'r Cyngor Tref yn disgwyl i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda'r cyngor a'r cyfarwyddiadau gan swyddog cynllunio CBSC
 0/49529 Tu Hwnt i'r Afon 9 Y Clos Llanfairfechan LL33 0AG – Mae'n debyg fod y cais hwn wedi'i ddiddymu
Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Gyda bod yr agenda wedi'i gwblhau, gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyngor Tref am gofnodi ymddeoliad dau aelod etholedig.

Cyng Delohne Merrell

Soniwyd pawb y bu'r Cyng Delohne Merrell yn aelod gwerthfawr dros ben i Gyngor Tref Llanfairfechan ac mae hi wedi cynnig blynyddoedd o gyngor a chymorth proffesiynol ynghlwm ag ystod o weithgareddau. Yn fwyaf diweddar bu iddi gynnig ei gwasanaeth fel Maeres yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig ac aelod o'r Tîm Rheoli Argyfyngau, gan arwain ar y Prosiect Cymorth Stryd. At hynny, fe soniwyd y bu llawer o hwyl a chyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Bu i Clerc y Dref estyn diolch i'r Cyng Delohne am ei chyngor a chymorth proffesiynol drwy gydol eu cyfnod yn cydweithio gyda'i gilydd.

Cyng Carol Gell

Cytunwyd y bu i'r Cyng Carol Gell gyflawni llawer iawn o waith arbennig ar ran y pentref a bu'n fuddiol dros ben i'r Cyngor Tref. Bu ei gwaith i fynd i'r afael gyda'r problemau llifogydd yn ward Lafan a dylunio a chynnal blychau planhigion yn werthfawr y tu hwnt. Fel cyn-Faeres, bu'r Cyng Carol Gell yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol dros y blynyddoedd a bu'n cynnig cyngor a chymorth i'w chyd Gynghorwyr Tref a Chlerc y Dref.

Hoffai'r Faeres Penny Andow ddiolch i'r Cynghr am eu cyfraniadau fel cydweithwyr a ffrindiau gwerthfawr a bu iddi ddymuno'r gorau iddyn nhw ar gyfer y dyfodol. Yna bu i'r Cyngor Tref groesawu Preben Vangberg i'r cyfarfod fel Cynghorydd Tref newydd. Er nad ydyw wedi ymuno'n ffurfiol, roedd yn gyfle i gwrdd â chydweithwyr newydd yn barod ar gyfer y datganiadau yn y cyfarfod ar Fai'r 11eg 2022.

8. Cloi'r cyfarfod: 8:32yh. Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Llawn: Nos Fercher, Mai'r 11eg am 7yh. Caiff Datganiadau Cymeradwyo ar gyfer Cyngor Tref newydd Llanfairfechan eu cynnal ymlaen llaw.